

# Gweddi Adfent y Stafell Fyw

## Gweddi Adfent, ar sail Salm 18

“Roedd rhaffau byd y meirw o’r cwmpas;  
Ro’n i’n boddi dan donnau marwolaeth;  
roedd llifogydd dinistr yn fy llethu.  
Gelwais ar yr ARGLWYDD o ganol fy helynt,  
a gweiddi ar fy Nuw....”

Arglwydd Dduw, down atat yr Adfent yma, ac adnabod nad ydy rhai ohonom yn llawn llawenydd neu ddisgwyliad wrth i ni aros am y Nadolig. Codwn atat y rhai sy’n teimlo bod rhaffau byd o’u cwmpas, a’r rhai sy’n gweld marwolaeth fel yr unig ffordd allan o’u trafferth. Gweddiwn dros y rhai sydd wedi cael eu llethu gan lifogydd dinistr, sy’n edrych o gwmpas a gofyn sut oedd popeth a oedd yn edrych mor ddiogel wedi diflannu. Yng nghanol ein helynt, rydyn ni’n galw arnat, Arglwydd, a datgan trwy ffydd:

**Ateb: ti sy’n goleuo fy lamp, o ARGLWYDD;  
fy Nuw sy’n rhoi golau i mi yn y tywyllwch**

“Estynnodd i lawr o’r uchelder a gafael ynof fi; tynnodd fi allan o’r dŵr dwfn. Achubodd fi o afael y gelyn ffyrnig, a’r rhai sy’n fy nghasáu oedd yn gryfach na mi. Dyma nhw’n ymosod pan roeddwn mewn helbul, ond dyma’r ARGLWYDD yn fy helpu i. Daeth â fi allan i ryddid! Achubodd fi am ei fod wrth ei fodd gyda mi.”

Arglwydd, yr Adfent yma, fel bob Adfent, cofiwn dy fod ti wedi dod lawr o’r uchelder i aros gyda ni. Daeth dy Fab Iesu i afael ynom gyda chofleidiad cariadus nad oedd marwolaeth yn gallu ei dinistrio. Trwy ei atgyfodiad gwnaeth Iesu ein hachub o’n gelynyon nerthol o’r tu allan a’r tu mewn. Er ein bod ni’n ffeindio ein hunain mewn helbul, diolchwn i ti dy fod ti’n dod â ni allan i ryddid. Diolchwn i ti yn arbennig dy fod ti wrth dy fodd gyda ni, hyd yn oed pan nad ydyn ni wrth ein boddau gydag ein hunain. Rydyn ni’n datgan trwy ffydd:

**Ateb: ti sy’n goleuo fy lamp, o ARGLWYDD;  
fy Nuw sy’n rhoi golau i mi yn y tywyllwch**

“Es ar ôl fy ngelynyon, a’u dal nhw; wnes i ddim troi’n ôl nes roedden nhw wedi darfod. Dyma fi’n eu taro nhw i lawr ... Ti roddodd y nerth i mi ymladd”

Diolchwn i ti Dad am waith y Stafell Fyw, a phawb sy’n helpu gyda gwaith dy deyrnas o ryddhau pobl rhag nerthoedd tywyll tlodi, caethwasiaeth, cam-drin neu salwch meddwl. Rho’r nerth iddyn nhw i ymladd, a llanw nhw gyda’th Ysbryd tra maen nhw’n gweithio i oleuo’r tywyllwch. Rydyn ni’n datgan trwy ffydd:

**Ateb: ti sy’n goleuo fy lamp, o ARGLWYDD;  
fy Nuw sy’n rhoi golau i mi yn y tywyllwch. Amen**